# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Dehongli'r termau craidd*

**4 Ystyr "manwerthwr alcohol"**

(1) Mewn perthynas â chyflenwi alcohol o fangre sy'n fangre gymhwysol yn rhinwedd adran 3(2)(a), mae pob un o'r canlynol i gael ei drin fel manwerthwr alcohol at ddibenion y Ddeddf hon—

(a) unigolyn y mae trwydded bersonol wedi ei rhoi iddo o dan Ran 6 o Ddeddf 2003 sy'n awdurdodi'r unigolyn i gyflenwi alcohol, neu i awdurdodi cyflenwi alcohol, yn unol â'r drwydded mangre o dan sylw;

(b) yr unigolyn sy'n oruchwyliwr dynodedig y fangre at ddibenion Deddf 2003.

(2) Mewn perthynas â chyflenwi alcohol o fangre sy'n fangre gymhwysol yn rhinwedd adran 3(2)(b), mae'r person sy'n ddeiliad y dystysgrif mangre clwb o dan sylw i gael ei drin fel manwerthwr alcohol at ddibenion y Ddeddf hon.

(3) Mewn perthynas â chyflenwi alcohol o fangre sy'n fangre gymhwysol yn rhinwedd adran 3(2)(c), mae'r unigolyn sy'n ddefnyddiwr y fangre at ddibenion Rhan 5 o Ddeddf 2003 i gael ei drin fel manwerthwr alcohol at ddibenion y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 4.